

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)

Mawrth 2022



## 1. Cefndir

### **Bil Llywodraeth y DU: Y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)**

1. Cyflwynwyd y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael)<sup>1</sup> (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Mehefin 2021 fel Bil Aelod Preifat. Noddir y Bil gan Mel Stride AS.

2. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn cynnwys y trosolwg a ganlyn:

*"Under section 134 of the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007 ("the 2007 Act"), cultural objects on loan from abroad to UK museums and galleries approved under the 2007 Act are protected from seizure or forfeiture for a period of 12 months from the date the object enters the UK. [...]*

*The Bill will provide an amendment to the 2007 Act to allow the period of protection to be extended for a further period of up to 3 months."<sup>2</sup>*

3. Mae'r nodiadau yn egluro hefyd y bydd y penderfyniad i ymestyn cyfnod gwarchodaeth yn cael ei wneud yn ôl disgrisiwn yr awdurdod perthnasol. Yng Nghymru, yr awdurdod perthnasol yw Gweinidogion Cymru.<sup>3</sup>

4. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Cyffredin ar 28 Ionawr 2022, a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 31 Ionawr 2022. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y dyddiad ar gyfer yr Ail Ddarlleniad wedi'i gadarnhau eto.

### **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru**

5. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

---

<sup>1</sup> Y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael), fel y'i cyflwynwyd (Bill 24 2021-22)

<sup>2</sup> Y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael): Nodiadau Esboniadol, paragraffau 1–2

<sup>3</sup> Y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael) Nodiadau Esboniadol, paragraff 2

---

**6.** Ar 10 Rhagfyr 2021, gosododd Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip (y Dirprwy Weinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn perthynas â'r Bil gerbron y Senedd.<sup>4</sup>

**7.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol adrodd ar y Memorandwm erbyn 10 Mawrth 2022.<sup>5</sup>

### **Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch**

---

**8.** Mae paragraff 8 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd yn eu cylch, sef y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y ddau gymal yn y Bil: 'Cymal 1: Gwarchod gwrthrychau diwylliannol ar fenthyg'; 'Cymal 2: Rychwant, cychwyn a theitl byr'.

**9.** Mae Cymal 1 yn mewnosod is-adrannau (4A) i (4D) newydd yn adran 134 o Ddeddf 2007. Yn ôl y Memorandwm, mae'r is-adrannau newydd yn gwneud y darpariaethau a ganlyn:

- Mae (4A) yn darparu bod gan yr awdurdod perthnasol y pŵer i ymestyn y cyfnod gwarchodaeth hwyaf presennol am gyfnod pellach o hyd at 3 mis.
- Mae (4B) yn diffinio ystyr 'awdurdod perthnasol' ('relevant authority') at ddibenion is-adran 4A. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod perthnasol mewn perthynas â gwrthrych sydd yng Nghymru at y dibenion rhagnodedig.
- Mae (4C)(a) yn darparu y gellir arfer y pŵer fwy nag unwaith mewn perthynas â'r un gwrthrych.
- Mae 4C(b) yn darparu, pan fo'r pŵer yn arferadwy gan fwy nag un awdurdod perthnasol ar adeg benodol mewn perthynas â'r un gwrthrych, mae'n arferadwy ganddynt yn gydredol.
- Mae (4D) yn egluro bod unrhyw estyniad a roddir o dan is-adran (4A) yn ychwanegol at y cyfnod gwarchodaeth hwyaf ('maximum protection period'), sy'n cynnwys y cyfnod cychwynnol o 12 mis o dan is-adran (4)(b) ynghyd ag unrhyw gyfnod ychwanegol o warchodaeth sy'n codio dan is-adran (5) pan fo'r gwrthrych

---

<sup>4</sup> [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Gwrthrychau Diwylliannol \(Gwarchodaeth rhag Ymafael\)](#), Medi 2021

<sup>5</sup> [Amserlen ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwrthrychau Diwylliannol \(Gwarchodaeth rhag Ymafael\)](#), Rhagfyr 2021

---

wedi dioddef difrod, ac unrhyw gyfnod o estyniad a roddwyd eisoes o dan is-adran (4A).<sup>6</sup>

**10.** Mae cymal 2 yn nodi rhychwant tiriogaethol, cychwyn a theitl byr y Bil.

**11.** Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r ddau gymal yn y Bil.

## **Safbwynt Llywodraeth Cymru**

---

**12.** Mae paragraffau 13 a 14 o'r Memorandwm yn nodi'r rhesymau pam fo'r Dirprwy Weinidog o'r farn ei bod yn briodol i'r Bil wneud darpariaethau ar gyfer Cymru:

*"Bydd sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil yn gymwys i Gymru yn diogelu mynediad diwylliannol cydradd i fenthyciadau rhyngwladol i'r cyhoedd ar draws pedair gwlad y DU. Heb y darpariaethau hyn, mae'n debygol y bydd amgueddfeydd ac orielau Cymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o ran atal benthydwyr rhyngwladol rhag benthyca gwrthrychau i'w harddangos mewn arddangosfeydd teithiol/dros dro yng Nghymru. [...]*

*Mae'n rhesymol defnyddio'r Bil hwn ar gyfer y DU i wneud y darpariaethau hyn i sicrhau cysondeb ledled y DU mewn perthynas â gwarchodaeth a roddir i wrthrych, a sicrhau hefyd y gellir rhoi gwarchodaeth i'r gwrthrych ym mhob gwlad yn y DU."*

**13.** Fodd bynnag, mae'r Dirprwy Weinidog yn gwrthwynebu'r pŵer cydredol, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, sydd wedi'i gynnwys yn is-adran newydd arfaethedig (4C)(b) o adran 134 o Ddeddf 2007, a gaiff ei mewnosod gan gymal 1 o'r Bil. Ym mharagraff 11 o'r Memorandwm, mae'r Gweinidog yn nodi:

*"Fel y'i drafftiwyd, mae'r pŵer cydredol yn effeithio ar bwerau'r Senedd i wneud deddfwriaeth yn y maes hwn yn y dyfodol oherwydd y ffaith y bydd yn ofynnol i gael cydsyniad Gweinidog y Goron i ddileu swyddogaeth gydredol yr Ysgrifennydd Gwladol. Byddai'n gweithredu'r cyfyngiad ym mharagraff 11(1)(a) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Senedd gael cydsyniad Gweinidog y Goron i ddeddfu, i ddileu neu addasu, mewn Deddf Senedd swyddogaeth Gweinidog y Goron sy'n ymwneud â swyddogaeth ddatganoledig gymwysedig."*

---

<sup>6</sup> Memorandwm, paragraff 8

**14.** Fel yr amlinellir ym mharagraff 12 o'r Memorandwm, mae'r Dirprwy Weinidog wedi gofyn am welliant i'r Bil a fyddai'n galluogi eithriad ar gyfer y cyfyngiadau ym mharagraff 11(1)(a) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Memorandwm yn egluro bod y cais hwn wedi'i wneud yn unol ag egwyddor 8 o Egwyddorion Cabinet Llywodraeth Cymru ar bwerau cydredol.<sup>7</sup>

**15.** Mae paragraff 19 o'r Memorandwm yn cadarnhau bod y Dirprwy Weinidog yn cadw'r penderfyniad yn ôl o ran argymell cydsyniad i'r ddarpariaeth pŵer cydredol (i'w mewnosod fel is-adran (4C)(b) o adran 134 o *Ddeddf 2007*, yn rhinwedd cymal 1) tan fod canlyniad y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU yn hysbys.

**16.** Ym mharagraff 18 o'r Memorandwm, daw'r Dirprwy Weinidog i'r casgliad a ganlyn:

*"Rwy'n argymell bod y Senedd yn cydsynio i'r cymalau a geir yn y Bil Gwrthrychau Diwylliannol (Gwarchodaeth rhag Ymafael), ac eithrio is-adran 4C(b) yr ydym yn ceisio gwelliant arni. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU oherwydd:*

*a. Bydd yn sicrhau dull gweithredu ledled y DU ac yn caniatáu i ddarpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ar draws y DU.*

*b. Bydd yn sicrhau nad yw amgueddfeydd, orielau a sefydliadau eraill Cymru yn cael eu rhoi o dan anfantais o'u cymharu â gwledydd eraill yn y DU.*

*c. Bydd y Bil yn gwneud newidiadau synhwyrol a phwysig i'r cynllun gwarchodaeth rhag ymafael yn llawer cynt nag y gellid ei gyflawni drwy ddeddfwriaeth ar wahân i Gymru."*

---

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru, *Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Awst 2021*, Atodiad B, tudalennau 3–4

## 2. Trafodaeth y Pwyllgor

**17.** Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 31 Ionawr 2022, a gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 28 Chwefror 2022.<sup>8</sup>

### Ein barn ni

**18.** Rydym yn nodi asesiad y Dirprwy Weinidog bod angen cydsyniad y Senedd mewn perthynas â'r ddau gymal yn y Bil. Rydym hefyd yn nodi'r rhesymau pam, ym marn y Dirprwy Weinidog, ei bod yn briodol gwneud darpariaeth i Gymru yn y Bil.

**19.** Rydym yn nodi pryderon y Dirprwy Weinidog ynghylch y ddarpariaeth pŵer cydredol, i'w mewnosod fel is-adran (4C)(b) o adran 134 o Ddeddf 2007, yn rhinwedd cymal 1. Yn unol â hynny, nodwn ei chais bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno gwelliant i'r Bil a fyddai'n galluogi eithriad ar gyfer y cyfyngiadau ym mharagraff 11(1)(a) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006.

**Casgliad 1.** Rydym yn rhannu pryderon y Dirprwy Weinidog ynghylch y ddarpariaeth pŵer cydredol sydd wedi'i chynnwys yng nghymal 1 o'r Bil. Rydym wedi codi pryderon tebyg yn rheolaidd mewn perthynas â Biliau eraill sy'n destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol.<sup>9</sup> Yn yr achos hwn, rydym yn cytuno bod y pŵer cydredol yn effeithio ar bwerau'r Senedd i wneud deddfwriaeth yn y maes hwn yn y dyfodol yn sgil y ffaith y bydd yn ofynnol cael cydsyniad Gweinidog y Goron i ddileu swyddogaeth gydredol yr Ysgrifennydd Gwladol. Rydym yn croesawu ei chais bod Llywodraeth y DU yn cyflwyno gwelliant i'r Bil at ddibenion galluogi eithriad.

**Argymhelliad 1.** Cyn i'r ddadl ar y cynnig cydsyniad perthnasol gael ei chynnal yn y Senedd, dylai'r Dirprwy Weinidog rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r ddarpariaeth pŵer cydredol sydd wedi'i chynnwys yng nghymal 1 o'r Bil.

---

<sup>8</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 31 Ionawr 2022](#), a'r [Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 28 Chwefror 2022](#)

<sup>9</sup> Gweler adroddiadau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch: [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol](#) (paragraffau 21–24); [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Lles Anifeiliaid \(Anifeiliaid a Gedwir\)](#) (paragraffau 23–25); [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru \(Memorandwm Rhif 2\) ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol](#) (paragraffau 27–30)

---